TGAU

# CBAC TGAU Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd
Yr Oesoedd Canol
Adran A: Y Llychlynwyr tua 750 – tua 1066
Adran B: Y Croesgadau, tua 1095 – tua 1291

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Papur Cwestiynau | 3 |
| Cynllun Marcio | 8 |
| Grid mapio | 34 a 35 |


SAMPL

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Cyfyngedig 2024.

**TGAU**

**3130NK**

**TGAU Hanes – Uned 3**
**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
**3: Yr Oesoedd Canol**

# 1 awr
# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

**Deunyddiau ychwanegol**
Llyfryn ateb pinc 16 tudalen CBAC.

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Dylid ysgrifennu atebion i gwestiynau 3b, 4b / 7b, 8b mewn testun parhaus (brawddegau llawn a pharagraffau).

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb ar wahân. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar flaen eich llyfryn ateb.

Defnyddiwch ddwy ochr y papur.

Ysgrifennwch rif y cwestiwn yn y ddau flwch ar yr ochr chwith ar ddechrau pob ateb, er enghraifft | 0 | 1 |

Gadewch o leiaf dwy linell rhwng pob ateb.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Gall y ffynonellau a ddefnyddir gynnwys geiriau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n gyffredin ac sydd bellach yn cael eu hystyried yn derminoleg ddifrïol. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu amser a lleoliad y fersiwn wreiddiol o'r ffynonellau hyn.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B

## Adran A

### 3.1 Y Llychlynwyr, tua 750–tua 1066

**0 1** Disgrifiwch berthynas y Llychlynwyr â'r byd Arabaidd. **[5]**

**0 2** Esboniwch pam y goresgynnodd y Fyddin Fawr Baganaidd dir mawr Prydain. **[10]**

**0 3** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**a)** Disgrifiwch ddiwedd teyrnasiad y Llychlynwyr yn Lloegr ym 1042. **[5]**

**b)** Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth ar gyfer hanesydd
sy'n astudio colled Harald Hardrada ym Mrwydr Stamford Bridge. **[15]**

<table>
<tr><td>Eitem 1</td><td>Yr hanesydd Frank McLynn yn ysgrifennu yn ei lyfr Hanes o ddiddordeb cyffredinol 1066: The Year of the Three Battles (1999)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwnaeth Harald Hardrada ddau benderfyniad gwael. Yn gyntaf, caniataodd i'w ddynion fwrw ymlaen i Stamford Bridge yn beryglus o wael eu hoffer. Fe wnaethant adael eu tarianau, helmedau, crysau mael a gwaywffyn ar eu llongau, gan gymryd dim ond ychydig o fwâu a saethau. Yna, yn dra hyderus, penderfynodd Harald mai dim ond un o bob tri o'r fyddin ddylai fynd gydag ef, fel bod tua 5 000 o filwyr ar yr orymdaith gydag ef a'r gweddill wedi'u gadael ar ôl ar longau. … Roedd marwolaeth Harald mewn brwydr yn ddiweddglo perffaith i yrfa rhyfelwr mawr Llychlynnaidd. Ond yn syth wedyn aeth hi'n dawel oherwydd roedd ei ddilynwyr yn ansicr o beth i'w wneud nesaf.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Eitem 2</td><td>Henry Huntingdon, hanesydd o Loegr yn ysgrifennu yn The Chronicle of Henry Huntingdon (tua 1129)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwthiodd Harold o Loegr [Harold Godwinson] ymlaen gyda byddin bwerus a chyrhaeddodd y goresgynwyr yn Stamford Bridge. Ymladdodd y byddinoedd o doriad y wawr tan hanner dydd pan gafodd y Norwyaid eu gorfodi i ildio gerbron niferoedd uwch y Saeson, ond gwnaethant gilio yn drefnus. Wrth gael eu gyrru ar draws yr afon fe wnaethant safiad o'r newydd. Yma, ataliodd un Norwyad dienw fyddin Lloegr rhag croesi'r bont tan i rywun o'r diwedd ddod o dan y bont mewn cwch a phlannu gwaywffon ynddo drwy'r bylchau yn y llorio. Cafodd Harald Hardrada a'r fyddin gyfan naill ai eu lladd, eu cymryd yn garcharorion neu eu llosgi.</td></tr>
</table>

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024 

**0 4** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**a)** Disgrifiwch gyrch y Llychlynwyr ar Ynys Sheppey yn 835. **[5]**

**b)** Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** mai ymosodiadau ar dir mawr Prydain oedd y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn ehangiad y Llychlynwyr tua'r gorllewin. **[20]**

| **Eitem 3** | Elizabeth Hallam, athro ymchwil, ac Andrew Prescott, curadur yn y Llyfrgell Brydeinig, yn ysgrifennu yn y sylwebaeth ar gyfer eu llyfr *The British* Inheritance: *a Treasury of Historic Documents* (1999) |
|---|---|
| O ddiwedd yr wythfed ganrif, roedd Prydain gyfan yn destun i ymosodiadau gan y Llychlynwyr. Yng Nghymru, roedd yr effaith wedi'i chyfyngu i'r arfordir, ond cafodd Lloegr a'r Alban eu trawsnewid. Yn yr Alban, daeth ynysoedd y gogledd ac Ynysoedd y Gorllewin yn drefedigaethau'r Llychlynwyr. Cafodd holl deyrnasoedd hynafol Lloegr eu goresgyn ac eithrio Wessex, ac roedd aneddiadau helaeth gan y Sgandinafiaid yn y gogledd a'r dwyrain. Roedd ymosodiadau'r Llychlynwyr yn gymhelliant cryf dros undeb gwleidyddol [i Loegr]. | |

**DIWEDD ADRAN A**

**Trowch drosodd ar gyfer Adran B.**

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Adran B

### 3.2 Y Croesgadau, tua 1095 – tua 1291

**0 5** Disgrifiwch sut y heriodd Salah ad-Din reolaeth y Croesgadwyr yn y Tir Sanctaidd. **[5]**

**0 6** Esboniwch pam y gwnaeth Gwarchae Damascus fethu yn 1148. **[10]**

**0 7** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch Gyngor Clermont. **[5]**

**(b)** Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio sut y daeth y Groesgad Gyntaf i gael ei threfnu. **[15]**

| **Eitem 1** | RHC [Ralph] Davis, athro Hanes Canoloesol, yn ysgrifennu mewn llyfr hanes academaidd *A History of Medieval Europe* (1957) |
|---|---|
| Ym 1071, cafodd y Bysantiaid eu trechu ym Mrwydr Manzikert, gan golli rhannau helaeth o'u tir i'r Tyrciaid Mwslimaidd. Roedd yr Ymerawdwr Bysantaidd mewn anobaith ac apeliodd at y Pab am gymorth gan y Gorllewin. Cafodd ymateb llawn cydymdeimlad gan y Pab Grigor VII, a oedd yn gobeithio y byddai hyn yn rhoi cyfle i aduno'r Eglwysi Cristnogol a oedd wedi eu rhannu ers 1054. | |

| **Eitem 2** | Y Pab Urban II, yn ysgrifennu mewn llythyr at ei gefnogwyr yn Bologna (19 Medi 1096) |
|---|---|
| Rydyn ni wedi clywed bod llawer ohonoch eisiau mynd i Jerwsalem, a dylech chi ddeall bod hyn yn fy mhlesio i. Bydd unrhyw ddyn yn eich plith sy'n mynd yno er iachawdwriaeth ei enaid a rhyddid yr Eglwys yn cael ei wobrwyo. Gan weithredu trwy drugaredd Duw hollalluog a gweddïau'r Eglwys Gatholig, rwyf yn maddau eu pechodau, os ydyn nhw wedi gwneud cyffesiad diffuant a llawn. Mae hyn oherwydd eu bod wedi peryglu eu heiddo a'u bywydau er cariad Duw a'u cymydog. | |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

**0 8** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch warchae Acre (1291). **[5]**

**(b)** Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** bod y Croesgadau'n aflwyddiannus oherwydd ymraniadau ymhlith rheolwyr y Cristnogion. **[20]**

| **Eitem 3** | Austin Cline, awdur yn canolbwyntio ar yr astudiaeth o anffyddiaeth, yn ysgrifennu yn yr erthygl *"The Military and Political Effects of the Crusades"* ar y wefan addysgol *Learn Religions* (2019) |
|---|---|
| Un o'r pethau a helpodd i atal y Croesgadau rhag bod yn llwyddiannus oedd y cweryla a'r ymladd cyson hwn ymysg ei gilydd. Wrth gwrs, roedd digon o hynny ymhlith arweinwyr y Mwslimiaid hefyd, ond yn y diwedd, roedd yr ymraniadau ymhlith Cristnogion Ewropeaidd yn waeth ac wedi achosi mwy o broblemau o ran cynnal ymgyrchoedd milwrol effeithiol yn y Dwyrain. | |

**DIWEDD Y PAPUR**

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

### Egwyddorion marcio generig

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffracsiynau eraill) a roddir bob amser.

- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.

- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn).

- Rhoddir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae’r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu’r dull o’i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ymateb da iawn ennill marciau llawn ac i ymateb gwael iawn beidio ag ennill unrhyw farciau o gwbl. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy’n llai na pherffaith os yw’n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso’r cynllun marcio’n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy’n wrthrychol neu’n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio’n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys *’Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall’* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio’n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo’r ateb yn gywir ond wedi’i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy’n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a’r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy’n berthnasol i’r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth briodol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff arholwyr eu hatgoffa y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cynllun marcio ar gyfer Adran A

| Cwestiwn 1 | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch y gydberthynas rhwng y Llychlynwyr â'r byd Arabaidd. | | [5] |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd un o'r cydberthnasau allweddol yn seiliedig ar fasnach, a'r llwybrau masnach a oedd yn cysylltu Gogledd Ewrop â'r byd Arabaidd. Roedd y Llychlynwyr yn masnachu crwyn anifeiliaid, caethweision, mêl ac ambr yn gyfnewid am sidan, sbeisys a nwyddau moethus o'r byd Arabaidd. Daethpwyd o hyd i symiau mawr o ddarnau arian Arabaidd yng nghelciau Llychlynwyr sy'n dangos eu pwysigrwydd i economi'r Llychlynwyr.
- Roedd y berthynas economaidd ehangach hefyd wedi galluogi creu cyfoeth ar hyd y Llwybr Sidan, a gyfrannodd at ddatblygiad economaidd cymdeithas y Llychlynwyr. Ariannwyd adeiladu trefi a llongau, ac alldeithiau milwrol, yn rhannol gan y perthnasoedd economaidd hyn. Roedd Baghdad yn benodol yn gyrchfan ddeniadol i fasnachwyr Llychlynnaidd oedd yn edrych i ddatblygu'r perthnasoedd hynny.
- Esblygodd perthnasoedd hefyd mewn cysylltiad â datblygiadau diwylliannol, gyda'r Llychlynwyr yn mabwysiadu technolegau fel meteleg a thechnegau mordwyo o'r byd Arabaidd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 2 | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam y goresgynnodd y Fyddin Fawr Baganaidd dir mawr Prydain. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Un o'r rhesymau pam y goresgynnodd y Fyddin Fawr Baganaidd dir mawr Prydain oedd am ei bod yn barhad naturiol o gyrchoedd blaenorol ar y diriogaeth, er enghraifft y rhai a ddilynodd y cyrch ar Ynys Metgawdd yn 793. Trwy'r cyrchoedd cynharach hyn, roedd y Llychlynwyr wedi gallu cyflawni eu chwant am gyfoeth ac adnoddau, yn enwedig gan fynachlogydd a threfi. Roedd yr ynys hefyd yn rhoi mynediad iddynt i dir ffrwythlon, a oedd yn gyfyngedig yn Nenmarc ac yn eu galluogi i ymgartrefu'n barhaol.
- Rheswm arall yw amseriad dyfodiad y Fyddin: roedd ansefydlogrwydd gwleidyddol ym Mhrydain yng nghanol y nawfed ganrif gyda'r cystadlu rhwng y gwahanol deyrnasoedd Sacsonaidd ar adeg arbennig o ymfflamychol: Roedd Northumbria a Mercia yn gwanhau ac roedd Wessex yn tyfu mewn nerth. O wybod bod diffyg undod ar dir mawr Prydain, roedd y Llychlynwyr yn gweld hyn fel moment amserol, oherwydd doedd y teyrnasoedd Eingl-Sacsonaidd yn amlwg ddim yn barod am oresgyniad ar raddfa eang.
- Roedd cymhelliad personol hefyd dros y goresgyniad: Mae rhai Sagâu Llychlynnaidd yn dweud yr oedd yr arweinwyr, er enghraifft, Ivar y Di-Esgyrn, Ubba a Halfdan Ragnarsson, meibion Ragnar Lodbrok, wedi'u cymell gan yr awydd i ddial am farwolaeth eu tad. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai ennill enwogrwydd a ffortiwn i'w hunain oedd y prif gymhelliad yn hytrach na dial ac roedd yr ymosodiad yn gyfle gwych iddynt gyflawni hyn.

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 3(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch ddiwedd teyrnasiad y Llychlynwyr yn Lloegr ym 1042. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Daeth rheolaeth y Llychlynwyr yn Lloegr i ben gyda marwolaeth Harthacnut ym 1042. Bu farw heb etifedd uniongyrchol ac ef oedd y Daniad olaf i reoli Lloegr.
- Roedd gwactod grym ar ôl marwolaeth Harthacnut, a alluogodd pendefigion Lloegr i gipio mwy o rym. Roedd Harthacnut wedi gwneud cytundebau, anffurfiol o bosibl, gyda Llychlynwyr eraill i'w olynu, a ddychrynodd y Saeson, a gwnaethant wahodd hanner brawd Harthacnut, Edward Gyffeswr, i ddod yn frenin nesaf Lloegr.
- Caniataodd esgyniad Edward Gyffeswr i Deulu'r Wessex ddychwelyd i orsedd Lloegr; fodd bynnag, roedd diffyg etifedd – ac felly dim llinell olyniaeth uniongyrchol – wedi arwain at heriau yn y dyfodol ac, ym 1066, at y goresgyniad.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 3(b) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio colled Harald Hardrada ym Mrwydr Stamford Bridge.<br><br>**Eitem 1** Frank McLynn, hanesydd, yn ysgrifennu yn ei lyfr Hanes o ddiddordeb cyffredinol *1066: The Year of the Three Battles* (1999)<br><br>Gwnaeth Harald Hardrada ddau benderfyniad gwael. Yn gyntaf, caniataodd i'w ddynion fwrw ymlaen i Stamford Bridge yn beryglus o wael eu hoffer. Fe wnaethant adael eu tarianau, helmedau, crysau mael a gwaywffyn ar eu llongau, gan gymryd dim ond ychydig o fwâu a saethau. Yna, yn dra hyderus, penderfynodd Harald mai dim ond un o bob tri o'r fyddin ddylai fynd gydag ef, fel bod tua 5 000 o filwyr ar yr orymdaith gydag ef a'r gweddill wedi'u gadael ar ôl ar longau. … Roedd marwolaeth Harald mewn brwydr yn ddiweddglo perffaith i yrfa rhyfelwr mawr Llychlynnaidd. Ond yn syth wedyn aeth hi'n dawel oherwydd roedd ei ddilynwyr yn ansicr o beth i'w wneud nesaf.<br><br>**Eitem 2** Henry Huntingdon, hanesydd o Loegr yn ysgrifennu yn *The Chronicle of Henry Huntingdon (c.1129)*<br><br>Gwthiodd Harold o Loegr [Harold Godwinson] ymlaen gyda byddin bwerus a chyrhaeddodd y goresgynwyr yn Stamford Bridge. Ymladdodd y byddinoedd o doriad y wawr tan hanner dydd pan gafodd y Norwyaid eu gorfodi i ildio gerbron niferoedd uwch y Saeson, ond gwnaethant gilio yn drefnus. Wrth gael eu gyrru ar draws yr afon fe wnaethant safiad o'r newydd. Yma, ataliodd un Norwyad dienw fyddin Lloegr rhag croesi'r bont tan i rywun o'r diwedd ddod o dan y bont mewn cwch a phlannu gwaywffon ynddo drwy'r bylchau yn y llorio. Cafodd Harald Hardrada a'r fyddin gyfan naill ai eu lladd, eu cymryd yn garcharorion neu eu llosgi. | | **[15]** |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cynnwys Dangosol |
| --- |
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>**Cymariaethau:**<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi mai'r Norwyaid yn hytrach na'r Daniaid oedd y lluoedd a oedd bellach yn bygwth Lloegr.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi yr oedd Harald Hardrada yn un o'r bygythiadau i Loegr yr oedd pendefigion Lloegr wedi eu hofni yn sgil marwolaeth Harthacnut ym 1042.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi fod y Llychlynwyr, erbyn 1066, yn llai effeithiol na'r Saeson, a allai esbonio pam na chafwyd adfywiad o rym y Llychlynwyr yn Lloegr ar ôl 1042.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn nodi bod Harald Hardrada wedi cael ei ladd ym Mrwydr Stamford Bridge.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 wedi'u hysgrifennu o safbwynt Saesnig.<br><br>**Cyferbyniadau:**<br>• Mae Eitem 1 yn gosod y bai yn rhannol ar Harald Hardrada am ei golled yn Stamford Bridge, ond mae Eitem 2 yn pwysleisio rhagoriaeth lluoedd Lloegr.<br>• Mae Eitem 1 yn dweud yr oedd y Norwyaid yn aneffeithiol o ran eu tactegau; Fodd bynnag, mae Eitem 2 yn awgrymu eu bod wedi cadw trefn dda.<br>• Mae Eitem 1 yn dweud fod gan y Norwyaid lai o ddynion oherwydd penderfyniad gwael a wnaed gan Harald, ond mae Eitem 2 yn dweud yr oedd gan y Saeson niferoedd uwch.<br>• Mae Eitem 1 yn dweud yr oedd y Norwyaid yn ansicr o beth i'w wneud ar ôl marwolaeth Harald, ond mae Eitem 2 yn awgrymu nad oedd amser am ddiffyg penderfyniad gan iddynt gael eu lladd ar unwaith. Ni chafwyd ymosodiad llwyddiannus gan y Llychlynwyr ar ôl marwolaeth Harthacnut ym 1042.<br>• Mae Eitem 1 yn ddarn sy'n deillio o lyfr sy'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau ym 1066 a ysgrifennwyd gan hanesydd, ond mae Eitem 2 yn ffynhonnell gyfoes a ysgrifennwyd ychydig ddegawdau yn unig ar ôl y frwydr. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl ac eglur wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus |
| 4 | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn gosod, gyda rhywfaint o gywirdeb. Cymariaethau a chyferbyniadau heb eu datblygu ac wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a** phriodoliadau |
| 2 | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **ac** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau heb eu datblygu wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a/neu** briodoliadau |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **neu** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **neu** briodoliadau |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 4(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch gyrch y Llychlynwyr ar Ynys Sheppey yn 835. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd y cyrch ar Sheppey yn un o'r cyrchoedd cynharaf gan y Llychlynwyr a gofnodwyd ar dir Lloegr, yr oedd ei lleoliad yn golygu ei bod yn arbennig o agored i ymosodiad.
- Defnyddiodd y Llychlynwyr longau hirion a allai fordwyo'r dyfroedd arfordirol a'r aberoedd a ganiataodd iddynt daro canol y tir gan ddefnyddio tactegau taro a ffoi a leihaodd nifer anafusion y Llychlynwyr. Roedd cyflymder yr ymosodiadau hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl leol sicrhau amddiffyn effeithiol.
- Roedd effeithiau'r cyrch yn niferus: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 4(b) | Cyfanswm y marciau |
|---|---|
| Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** mai ymosodiadau ar dir mawr Prydain oedd y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn ehangiad y Llychlynwyr tua'r gorllewin.<br><br>**Eitem 3** Elizabeth Hallam, athro ymchwil, ac Andrew Prescott, curadur yn y Llyfrgell Brydeinig, yn ysgrifennu yn y sylwebaeth ar gyfer eu llyfr *The British Inheritance: a Treasury of Historic Documents* (1999)<br><br>O ddiwedd yr wythfed ganrif, roedd Prydain gyfan yn destun i ymosodiadau gan y Llychlynwyr. Yng Nghymru, roedd yr effaith wedi'i chyfyngu i'r arfordir, ond cafodd Lloegr a'r Alban eu trawsnewid. Yn yr Alban, daeth ynysoedd y gogledd ac Ynysoedd y Gorllewin yn drefedigaethau'r Llychlynwyr. Cafodd holl deyrnasoedd hynafol Lloegr eu goresgyn ac eithrio Wessex, ac roedd aneddiadau helaeth gan y Sgandinafiaid yn y gogledd a'r dwyrain. Roedd ymosodiadau'r Llychlynwyr yn gymhelliant cryf dros undeb gwleidyddol [i Loegr]. | **[20]** |

**Cynnwys Dangosol**

Wrth gyrraedd barn, gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Mae rhywfaint o hygrededd i'r farn a fynegir yn Eitem 3, mai ymosodiadau ar dir mawr Prydain oedd y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn ehangiad y Llychlynwyr tua'r gorllewin. Fel y dywed yr eitem, cafodd Prydain gyfan ei heffeithio gan ymosodiadau'r Llychlynwyr, er i wahanol raddau, gyda dim ond Cymru a Wessex wedi'u heffeithio'n llai na Lloegr a'r Alban. Roedd ardaloedd arfordirol Cymru yn fwy agored nag ardaloedd mewndirol, ac fe wnaeth Wessex osgoi cael ei goresgyn yn gyfan gwbl.
- Darparodd tir mawr Prydain safle strategol ar gyfer lansio mordeithiau i Fôr yr Iwerydd. Ar ôl i'r Llychlynwyr gael mynediad i Brydain, roeddent yn gallu ymgartrefu fwyfwy ar yr ynys a'i defnyddio fel rhwydwaith masnach a oedd yn cysylltu Llychlyn, Ynysoedd Prydain ac Iwerddon a thu hwnt.
- Gyda'r anawsterau a wynebai'r Llychlynwyr wrth ymosod ar ogledd Ffrainc, oherwydd ymdrechion llwyddiannus Siarl y Moel i'w gwrthsefyll, rhoddodd ynys Prydain gyfle a man lansio iddynt ehangu tua'r gorllewin.
- Mae'r eitem yn ddarn o sylwebaeth a ysgrifennwyd gan academyddion o sefyllfa o edrych yn ôl, ac felly dylai fod rhywfaint o ddilysrwydd iddo gan y byddant wedi ymchwilio i'r testun.
- Fodd bynnag, gall ymgeiswyr herio'r farn trwy bwysleisio ffactorau eraill. Er enghraifft, gellir hefyd priodoli llwyddiannau'r Llychlynwyr wrth symud tua'r gorllewin i'r ffaith eu bod wedi sefydlu canolfannau ac aneddiadau allweddol yn Iwerddon, megis yn Nulyn, Waterford a Limerick. Fe wnaeth y cyfoeth a enillwyd o gyrchoedd yn yr ardaloedd hyn gyfrannu'n sylweddol at adnoddau'r Llychlynwyr a gynhaliodd ehangu



© WJEC CBAC Ltd. 2024

ymhellach, yr oedd lleoliad daearyddol Iwerddon hefyd wedi'i hwyluso. Roedd morio o amgylch Môr Iwerddon wedi gwella mordwyo'r Llychlynwyr.

- Ar ben hynny, rhoddodd Sbaen fynediad i'r Llychlynwyr i Fôr y Canoldir gan ganiatáu iddynt ddefnyddio llwybrau masnach Bysantaidd a defnyddio'r cyfnewidiadau diwylliannol hynny i wella technegau adeiladu llongau a mordwyo'r Llychlynwyr, gan wella eu gallu i deithio ymhell.
- Gall ymgeiswyr gasglu drwy gytuno â'r safbwynt mai'r ymosodiadau ar dir mawr Prydain oedd y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn ehangiad gorllewinol y Llychlynwyr, gan awgrymu mai'r rhain oedd y sbardun allweddol. Neu gallan nhw gasglu mai un o'r rhanbarthau eraill a ymosodwyd arnynt oedd fwyaf arwyddocaol, oherwydd y ffactorau a nodwyd uchod. Fel arall, gallan nhw awgrymu nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r mynegiant yn llawn y naill ffordd na'r llall, ac nad oedd yr ymosodiadau ar dir mawr Prydain yn ddigwyddiadau dim mwy, nac yn ddim llai, arwyddocaol o ran ehangiad gorllewinol y Llychlynwyr.

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **5** | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| **4** | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| **3** | **5–6 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| **2** | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| **1** | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

### Cynllun marcio ar gyfer Adran B

| Cwestiwn 5 | | Cyfanswm y Marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch sut y heriodd Salah ad-Din reolaeth y Croesgadwyr yn y Tir Sanctaidd. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Unodd Salah ad-Din wrthwynebiad y Mwslimiaid i'r croesgadwyr dan ei arweinyddiaeth. Roedd yn hyblyg gyda thactegau yn amrywio o ryfela confensiynol i dactegau gerila, gan wneud y lluoedd Mwslimaidd yn fwy addasadwy ac yn gallu ymateb yn gyflym i heriau yr oedd y croesgadwyr yn eu peri.
- Cipiodd gaerau allweddol y Croesgadwyr, er enghraifft yn ystod gwarchae Jerwsalem ym 1187, a gorchfygodd ei luoedd fyddin y Croesgadwyr ym Mrwydr Hattin, 1187.
- Roedd Salah ad-Din yn effeithiol yn ei ddefnydd o ddiplomyddiaeth, er enghraifft roedd yn drugarog o ran y telerau ildio ar ôl cipio Jerwsalem, a gwnaeth hyn danseilio morâl y Croesgadwyr. Mae Cytundeb Jaffa, 1192, yn dangos ei barodrwydd i negodi gyda'r Croesgadwyr, tra roedd y Mwslimiaid yn parhau i reoli tiroedd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 6 | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Esboniwch pam y gwnaeth Gwarchae Damascus fethu ym 1148. | | **[10]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Gwnaeth y croesgadwyr gamgymeriadau strategol wrth i ymraniadau ymhlith yr arweinwyr arwain at gydgysylltu a chynllunio aneffeithlon. Nid oedd gan yr arweinwyr, y Brenin Louis VII o Ffrainc, Conrad III o'r Almaen a Baldwin III o Jerwsalem, strategaeth glir, a rwystrodd eu gallu i gynnal gwarchae hir. Ymosodant ar ochr fregus o'r ddinas i ddechrau ond wedyn gwanhau eu sefyllfa trwy symud i ardal fwy caerog (*fortified*).
- Ar ben hynny, fe wnaeth y gwarchae fethu oherwydd amddiffyn effeithiol y Mwslimiaid. Roedd y defnydd o saethwyr ac encilio strategol i waliau'r ddinas yn ei gwneud hi'n anodd i'r croesgadwyr dorri trwy'r amddiffyniadau. Cryfhaodd milwyr ychwanegol Nur ad-Din amddiffynfeydd y ddinas a gorfodi'r croesgadwyr i roi'r gorau i'r gwarchae.
- Digalonnodd y croesgadwyr pan na welant lwyddiant cyflym. Wynebodd y Croesgadwyr amodau llym, gan gynnwys prinder bwyd a dŵr, gan ei gwneud hi'n anodd parhau â'r gwarchae. Arweiniodd cyflenwadau annigonol at lawer o groesgadwyr yn cwestiynu arweinyddiaeth y groesgad a'u siawns o lwyddo.

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 7(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch Gyngor Clermont. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd Cyngor Clermont (1095) yn gasgliad o thua 300 o gynrychiolwyr Eglwys Rufain a wnaeth ymgynnull yn Clermont, canolbarth Ffrainc, rhwng 17 a 27 Tachwedd 1095.
- Roedd y cyngor yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau o fewn yr Eglwys Rufain, fodd bynnag, taflwyd cysgod ar y rhain gan y digwyddiadau yn nwyrain ardal Môr y Canoldir, a arweiniodd at yr araith a roddwyd gan y Pab Urban II, ac sy'n cael ei hystyried fel y sbardun ar gyfer y Croesgad Cyntaf.
- Yn ei araith, anogodd Urban ryfelwyr Ffrainc i godi arfau ac i ryddhau Dinas Sanctaidd Jerwsalem ac i achub trigolion Cristnogol Dwyreiniol y ddinas rhag y driniaeth greulon yr honnodd iddyn nhw ei derbyn drwy law'r Twrciaid.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 7(b) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio sut cafodd y Groesgad Gyntaf ei threfnu.<br><br>**Eitem 1** RHC [Ralph] Davis, athro Hanes Canoloesol, yn ysgrifennu mewn llyfr hanes academaidd *A History of Medieval Europe* (1957)<br><br>Ym 1071, cafodd y Bysantiaid eu trechu ym Mrwydr Manzikert, gan golli rhannau helaeth o'u tir i'r Tyrciaid Mwslimaidd. Roedd yr Ymerawdwr Bysantaidd mewn anobaith ac apeliodd at y Pab am gymorth gan y Gorllewin. Cafodd ymateb llawn cydymdeimlad gan y Pab Grigor VII, a oedd yn gobeithio y byddai hyn yn rhoi cyfle i aduno'r Eglwysi Cristnogol a oedd wedi eu rhannu ers 1054.<br><br>**Eitem 2** Y Pab Urban II, yn ysgrifennu mewn llythyr at ei gefnogwyr yn Bologna (19 Medi 1096)<br><br>Rydyn ni wedi clywed bod llawer ohonoch eisiau mynd i Jerwsalem, a dylech chi ddeall bod hyn yn fy mhlesio i. Bydd unrhyw ddyn yn eich plith sy'n mynd yno er iachawdwriaeth ei enaid a rhyddid yr Eglwys yn cael ei wobrwyo. Gan weithredu trwy drugaredd Duw hollalluog a gweddïau'r Eglwys Gatholig, rwyf yn maddau eu pechodau, os ydyn nhw wedi gwneud cyffesiad diffuant a llawn. Mae hyn oherwydd eu bod wedi peryglu eu heiddo a'u bywydau er cariad Duw a'u cymydog. | | **[15]** |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cynnwys Dangosol |
|---|
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>**Cymariaethau:**<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn dangos bod y Babaeth wedi annog y Croesgadau.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn dangos arwyddocâd, grym a dylanwad y Pab. Mae Eitem 1 yn pwysleisio ei arwyddocâd gwleidyddol, yn enwedig wrth gyfeirio at y rhwyg diweddar rhwng eglwysi'r gorllewin a'r dwyrain, ac mae Eitem 2 yn pwysleisio ei arwyddocâd crefyddol, gan addo maddau pechodau, a oedd yn bwysig mewn cymdeithas bryd hynny.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn awgrymu bod angen rhyddhau'r Eglwys Gristnogol.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 wedi'u hysgrifennu o safbwynt Gorllewinol amlwg.<br><br>**Cyferbyniadau:**<br>• Mae Eitem 1 yn dweud fod y Groesgad Gyntaf wedi digwydd o ganlyniad i gais y Bysantiaid am gefnogaeth filwrol ond mae Eitem 2 yn dweud yr oedd yn ganlyniad i apêl grefyddol gan y Pab Urban.<br>• Mae Eitem 1 yn pwysleisio'r cymhellion geo-wleidyddol dros wrthsefyll ehangiad y Twrciaid Mwslemaidd i'r Ymerodraeth Bysantaidd lle mae Eitem 1 yn canolbwyntio'n fwy penodol ar gymhellion sy'n seiliedig ar ffydd ac achubiaeth.<br>• Mae Eitem 1 yn cynnig hanes mwy gwrthrychol o lyfr a ysgrifennwyd am hanes Ewrop ganoloesol, ond mae Eitem 2 wedi'i hysgrifennu gan y Pab Urban ac yn dangos ei ddull o annog pobl i fynd ar groesgad.<br>• Gellir gweld Eitem 1 fel rhywbeth mwy gwrthrychol – mae wedi'i hysgrifennu gan athro Hanes – er bod llai o ffocws, gan ei bod yn ddarn o lyfr sy'n ymdrin ag ardal geowleidyddol a chyfnod amser helaeth. Gellir awgrymu hyn i gyfyngu ar yr eglurder a'r ffocws a roddwyd i ddechrau'r Croesgad Cyntaf. Ar y llaw arall, mae Eitem 2 yn gyfrif uniongyrchol o sail resymegol Urban II, ac mae'n dilyn ymlaen o'i apêl yng Nghyngor Clermont y flwyddyn flaenorol. |

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl ac eglur wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus |
| 4 | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae rhywfaint o gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn fanwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd, ond mae'n anghyson. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn gosod, gyda rhywfaint o gywirdeb. Cymariaethau a chyferbyniadau heb eu datblygu ac wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a** phriodoliadau |
| 2 | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **ac** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau heb eu datblygu wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a/neu** briodoliadau |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **neu** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **neu** briodoliadau |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 8(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch warchae Acre (1291). | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Dechreuodd ar 4 Ebrill 1291 dan arweiniad Al-Ashraf, y Swltan Mamluk. Roedd wedi cynllunio'n ofalus ar gyfer y gwarchae ac roedd peiriannau gwarchae enfawr yn barod ganddo ar gyfer yr ymosodiad, ynghyd â byddin yr amcangyfrifir iddi gynnwys tua 100 000 o filwyr.
- Parhaodd y gwarchae am sawl wythnos gyda'r Mamluk yn defnyddio'u peiriannau gwarchae i fomio amddiffynfeydd y ddinas. Fe wnaethon nhw dorri trwy bwyntiau hanfodol yn waliau allanol Acre. Roedd gwrthwynebiad cryf gan yr amddiffynwyr a gwnaethant atal yr ymosodwyr ond nid oeddent yn gallu atal waliau'r ddinas rhag cael eu bylchu.
- Cwympodd Acre ar 18 Mai 1291, ac ar ôl hynny cafodd llawer o'r trigolion eu lladd gan y Mamluk. Cafodd gweddill y croesgadwyr eu gorfodi i encilio i Gyprus, a oedd yn drobwynt yng nghwymp  gwladwriaethau'r croesgadwyr.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Cwestiwn 8(b) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** bod y croesgadau yn aflwyddiannus oherwydd ymraniadau ymhlith rheolwyr y Cristnogion.<br><br>**Eitem 3** Austin Cline, awdur yn canolbwyntio ar yr astudiaeth o anffyddiaeth, yn ysgrifennu yn yr erthygl "The Military and Political Effects of the Crusades" ar y wefan addysgol *Learn Religions* (2019)<br><br>Un o'r pethau a helpodd i atal y Croesgadau rhag bod yn llwyddiannus oedd y cweryla a'r ymladd cyson hwn ymysg ei gilydd. Wrth gwrs, roedd digon o hynny ymhlith arweinwyr y Mwslimiaid hefyd, ond yn y diwedd, roedd yr ymraniadau ymhlith Cristnogion Ewropeaidd yn waeth ac wedi achosi mwy o broblemau o ran cynnal ymgyrchoedd milwrol effeithiol yn y Dwyrain. | | **[20]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Gwerthuswch y farn yn Eitem 3 yr oedd y Croesgadau yn aflwyddiannus oherwydd ymraniadau ymhlith rheolwyr y Cristnogion. Roedd ymladd a brwydro am rym rhwng yr arweinwyr, er enghraifft rhwng Rhisiart Lewgalon a Phillip II yn ystod y Drydedd Groesgad, a arweiniodd at wneud penderfyniadau gwael, diffyg undod a phroblemau gydag ymgyrchoedd milwrol. Gan fod y croesgadwyr wedi dod o wahanol ranbarthau ac roedd ganddynt ieithoedd ac arferion gwahanol, roedd camddealltwriaeth a drwgdybio.
- Ar ôl eu sefydlu, gweithredodd taleithiau'r croesgadwyr, fel Teyrnas Jerwsalem a Thywysogaeth Antiochia, yn annibynnol. Roedd gan bob gwladwriaeth ei harweinwyr ei hun a arweiniodd at anghydfodau rhwng rheolwyr dros dir ac adnoddau.
- Mae'r eitem yn erthygl a gymerwyd o wefan addysgol felly dylai fod rhywfaint o ddilysrwydd iddo, fodd bynnag mae Austin Cline yn awdur sy'n canolbwyntio ar anffyddiaeth ac felly nid yw'n arbenigwr ar y Croesgadau.
- Fodd bynnag, gall ymgeiswyr herio'r farn trwy bwysleisio ffactorau eraill. Er enghraifft, roedd y croesgadwyr yn aflwyddiannus oherwydd fe wnaeth arweinwyr y Mwslimiaid lansio ymgyrchoedd milwrol effeithiol, defnyddio ystod o strategaethau, defnyddio daearyddiaeth y rhanbarth i'w mantais a chynnal rheolaeth dros gyflenwadau allweddol. Ffurfiodd arweinwyr Mwslimaidd gynghreiriau a oedd yn caniatáu iddynt lansio ymgyrchoedd milwrol effeithiol a chydgysylltiedig, er enghraifft ym Mrwydr Hattin, 1187.
- Ar ben hynny, roedd y croesgadwyr yn aflwyddiannus oherwydd yr oedd teyrnasoedd y croesgadwyr yn rhy anodd i'w cynnal. Roedd y pellter o Ewrop i'r Tir Sanctaidd yn ei gwneud hi'n anodd cynnal digon o filwyr a chyflenwadau. Dibynnodd y Croesgadwyr ar amddiffynfeydd a grym milwrol i gadw rheolaeth, a gwnaeth hyn ddieithrio cynghreiriaid posibl. Roedd colli Jerwsalem ym 1187 i Saladin yn wedi dangos pa mor agored i niwed yr oedd teyrnasoedd y Croesgadwyr ac arweiniodd ymdrechion i orfodi Cristnogaeth a diwylliant Ewropeaidd at densiynau gyda phoblogaethau lleol ac anawsterau cynnal rheolaeth.



© WJEC CBAC Ltd. 2024

- Gall ymgeiswyr gasglu drwy gytuno â'r safbwynt fod y Croesgadau'n aflwyddiannus oherwydd rhaniadau ar draws yr arweinwyr Cristnogol, neu gallan nhw ddadlau mai ffactorau eraill, fel effeithiolrwydd ymgyrchoedd Mwslimaidd a arweiniodd at golled y croesgadau. Gall eraill gasglu fod y canlyniad yn deillio o ystod o ffactorau sy'n cyd-berthyn, ac roedd rhaniadau ymhlith arweinwyr Cristnogol yn rhan sylweddol o hynny.

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **9–10 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda chefnogaeth gynhwysfawr.<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus. |
| 4 | **7–8 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Barn ddilys wedi'i chyrraedd gyda lefel dda o gefnogaeth.<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus. |
| 3 | **5–6 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd, gyda rhywfaint o gywirdeb.<br>• Barn anghyson wedi'i chyrraedd gyda rhywfaint o gefnogaeth. |
| 2 | **3–4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau.<br>• Barn anghyflawn wedi'i chyrraedd heb fawr o gefnogaeth. |
| 1 | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau.<br>• Barn arwynebol wedi'i chyrraedd. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 3.1

| Cwestiwn | Marciau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3.1.1 | | | | | | 3.1.2 | | | | | | 3.1.3 | | | | | | 3.1.4 | | | | | | 3.1.5 | | | | | |
| | | 3.1.1ai | 3.1.1aii | 3.1.1bi | 3.1.1bii | 3.1.1ci | 3.1.1cii | 3.1.2ai | 3.1.2aii | 3.1.2bi | 3.1.2bii | 3.1.2ci | 3.1.2cii | 3.1.3ai | 3.1.3aii | 3.1.3bi | 3.1.3bii | 3.1.3ci | 3.1.3cii | 3.1.4ai | 3.1.4aii | 3.1.4bi | 3.1.4bii | 3.1.4ci | 3.1.4cii | 3.1.5ai | 3.1.5aii | 3.1.5bi | 3.1.5bii | 3.1.5ci | 3.1.5cii |
| 1 | 5 | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | 10 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | |
| 3a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | |
| 3b | 15 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x |
| 4a | 5 | | | | | | | | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4b | 20 | | | | | | | x | x | x | x | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 3.2

| Cwestiwn | Marciau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3.2.1 | | | | | | 3.2.2 | | | | | | 3.2.3 | | | | | | 3.2.4 | | | | | | 3.2.5 | | | | | |
| | | 3.2.1ai | 3.2.1aii | 3.2.1bi | 3.2.1bii | 3.2.1ci | 3.2.1cii | 3.2.2ai | 3.2.2aii | 3.2.2bi | 3.2.2bii | 3.2.2ci | 3.2.2cii | 3.2.3ai | 3.2.3aii | 3.2.3bi | 3.2.3bii | 3.2.3ci | 3.2.3cii | 3.2.4ai | 3.2.4aii | 3.2.4bi | 3.2.4bii | 3.2.4ci | 3.2.4cii | 3.2.5ai | 3.2.5aii | 3.2.5bi | 3.2.5bii | 3.2.5ci | 3.2.5cii |
| 5 | 5 | | | | | | | | | | | | | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | 10 | | | | | | | | | | | | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7a | 5 | | | x | x | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7b | 15 | x | x | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8a | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | | | | |
| 8b | 20 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | x | x | | |
| **Cyfanswm** | **60** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Hawlfraint**

Mae'r eitemau a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cael eu defnyddio at ddibenion addysgiadol (nad ydynt yn fasnachol) yn unig, i hwyluso'r dysgu ac ar gyfer dadansoddi critigol. Darparwyd ffurflen gydnabyddiaeth ar gyfer pob eitem. Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r holl eitemau'n cael eu defnyddio mewn cydymffurfiaeth â'r Polisi Defnydd Teg; os oes hepgoriadau neu anghywirdebau, rhowch wybod i ni fel ein bod yn gallu gwneud unrhyw gywiriadau angenrheidiol.datblygucymwysterau@cbac.co.uk

SAMPL



© WJEC CBAC Ltd. 2024 